# Gofynion cydnabyddiaeth grant Cysylltiadau Tirwedd

22/07/2024
TDylai'r canllawiau hyn gael eu defnyddio gan unrhyw brosiect sy'n derbyn grant gan y fenter strategol Cysylltiadau Tirwedd.

## Sut i enwi eich prosiect

Gofynnir i chi roi '#LC' ar ddechrau teitl eich prosiect. Dylai enw eich prosiect gynnwys y testun Cysylltiadau Tirwedd. Y dull o enwi a ffafrir gennym yw:

Cysylltiadau Tirwedd [enw'r ardal]

Mae hwn i'w ddefnyddio mewn testun yn unig. Ni ddylai grantïon gynhyrchu eu delwedd hunaniaeth eu hunain ar gyfer prosiect Cysylltiadau Tirwedd.

## Cydnabod eich grant

Dylai prosiectau sy'n derbyn ariannu Cysylltiadau Tirwedd ddilyn yr arweiniad yn ein pecyn cymorth cydnabyddiaeth.

Fel y prif ariannwr mae arnom angen safle annibynnol ar gyfer y stamp cydnabyddiaeth ar yr holl ddeunyddiau a gweithgareddau hyrwyddo sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Dylai unrhyw bartneriaid eraill fod mewn safle eilaidd.

Lawrlwytho stamp cydnabyddiaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Dylid gosod y stamp cydnabyddiaeth fel yr amlinellir yn y pecyn cymorth.

**Rhaid darparu cydnabyddiaeth ddwyieithog ar gyfer unrhyw brosiectau yng Nghymru.**

## Sut i siarad am eich grant Cysylltiadau Tirwedd

Mae gennym arweiniad ar sut i siarad am eich grant yn y pecyn cymorth cydnabyddiaeth. Gweler y testun safonol ychwanegol ar sut i siarad am eich prosiect Cysylltiadau Tirwedd isod hefyd.

## Ynghylch Cysylltiadau Tirwedd

Dylid defnyddio'r testun hwn i ddisgrifio'ch prosiect ar wefannau ac mewn nodiadau i olygyddion.

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn buddsoddi £150miliwn dros 10 mlynedd i gefnogi prosiectau ar raddfa fawr i adfywio tirweddau, cefnogi adferiad byd natur a gwella’r cysylltiadau rhwng pobl a bywyd gwyllt ar draws y DU.

## Postiadau cyfryngau cymdeithasol

Yn ychwanegol at yr arweiniad yn ein pecyn cymorth cydnabyddiaeth gofynnir i chi ddefnyddio'r hashnod #CysylltiadauTirwedd hefyd

## Etifeddiaeth

Defnyddiwch y datganiad hwn ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Gwnaed [enw'r prosiect] yn bosibl diolch i fuddsoddiad cychwynnol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Roedd yn rhan o fenter fuddsoddi gwerth £150miliwn dros 10 mlynedd i gefnogi prosiectau ar raddfa fawr i adfywio tirweddau, cefnogi adferiad byd natur a gwella cysylltedd i bobl a bywyd gwyllt.

Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, gyrrwch e-bost i brand@heritagefund.org.uk neu pressoffice@heritagefund.org.uk.